Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Rhewl
**Rhewl**
**Rhuthun**
**Sir Ddinbych**
**LL15 2TU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd y Rhewl ym mhentref bach Rhewl ger Rhuthun yn Sir Ddinbych. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 mlwydd oed. Mae nifer y disgyblion a dderbynnir yn cynrychioli'r ystod gallu llawn.

Daw pob un o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Caiff disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, ac maent yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, ysgol ddynodedig ddwyieithog yw hi, sy'n darparu ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd, yn unol â'r galw.

Mae 34 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr ac mae pedwar plentyn arall yn mynychu'r feithrinfa ar sail ran-amser. Ers adleoli cylch chwarae'r pentref, mae'r ysgol hefyd yn derbyn plant cyn oedran meithrin. Caiff y ddarpariaeth hon, 'Pili Pala', ei chyflwyno yn ystafell ddosbarth y Cyfnod Sylfaen ac mae'n cynnwys plant o ardaloedd eraill yn lleol lle nad yw'r ddarpariaeth hon ar gael.

Bu cynnydd yn nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf. Y ffigur presennol yw tua 26% o ddisgyblion, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef ychydig llai na 20% ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan draean o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er Medi 2007.

Yn 2010-2011, y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd y Rhewl yw £4,574, sy'n cymharu ag uchafswm o £18,610 ac isafswm o £2,626 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych. Yr ysgol sydd â'r 14eg cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 53 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyffredinol yn dda oherwydd:

- ethos cynhwysol yr ysgol a chymuned dwymgalon a chyfeillgar yr ysgol;
- safonau cyflawniad da'r disgyblion a'u gallu i ddefnyddio medrau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm;
- ystod dda o weithgareddau dysgu sy'n ennyn ac yn cynnal diddordeb y disgyblion;
- lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad, gyda disgyblion yn bwrw ymlaen â'r dysgu'n dda;
- y ffordd y mae'r ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus; a'r
- gweithdrefnau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, yn enwedig mewn llythrennedd.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- hanes da yn sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion;
- yr ymrwymiad amlwg i welliant parhaus mewn darpariaeth a deilliannau;
- dealltwriaeth glir o'r agweddau ar y ddarpariaeth y mae angen eu datblygu ymhellach a'r parodrwydd i ystyried safbwyntiau llywodraethwyr, rhieni a disgyblion;
- cynllun datblygu ysgol strwythuredig sy'n nodi cynigion clir a phriodol ar gyfer datblygu'r ysgol;
- y ffordd y mae corff llywodraethol yr ysgol yn gweithredu fel ffrind beirniadol; ac
- ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion lleol eraill fel cymuned ddysgu broffesiynol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn ymestyn disgyblion o bob gallu mewn dosbarthiadau prif ffrwd, yn enwedig disgyblion uwch eu gallu yng nghyfnod allweddol 2;

A2 gwella dealltwriaeth disgyblion o beth i'w wneud i wella ansawdd eu gwaith, yn enwedig ansawdd y marcio ac ymglymiad disgyblion mewn hunanasesu ac asesu cyfoedion;

A3 datblygu cynllunio a gweithredu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau ymhellach, i sicrhau parhad a dilyniant mewn datblygiad medrau disgyblion; a

A4 gwella rôl uwch reolwyr mewn arfarnu parhad a dilyniant yn y ddarpariaeth ac yng nghyflawniadau disgyblion ar draws yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 1, mae perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion eraill yn y teulu a chyda pherfformiad ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran lefelau'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 3) yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg mewn mathemateg, ond nid yw unrhyw ddisgyblion wedi cyflawni'r lefel uwch mewn gwyddoniaeth neu Saesneg yn y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yn y teulu ar y cyfan. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch (lefel 5 neu'n uwch) yn cymharu'n ffafriol iawn â lefelau canran mewn ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, mae perfformiad bechgyn yn debyg i berfformiad merched, heblaw mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 1 lle nad yw bechgyn yn perfformio cystal. Nid oes patrwm o dangyflawni gan ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud y cynnydd disgwyliedig mewn perthynas â'u targedau unigol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd sylweddol o ran oedrannau darllen gwell.

Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae cyflawniadau disgyblion mewn siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, yn cymharu'n ffafriol â lefelau cyflawniad mewn ysgolion tebyg eraill ar y cyfan. Mewn gwersi, mae disgyblion yn fodlon cynnig atebion ac maent yn datblygu hyder wrth siarad. Mae disgyblion yn darllen testunau ar goedd yn rhugl ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr cymwys. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn y gallu i ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain, gan ddangos amgyffrediad cynyddol o atalnodi sylfaenol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu'n helaeth yn eu geiriau eu hunain at ystod o ddibenion. Maent yn defnyddio paragraffau ac atalnodi yn effeithiol, ac yn defnyddio medrau ailddrafftio i wella eu gwaith. Mae ysgrifennu ffuglennol disgyblion yn ddiddorol a dychmygus.

Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn datblygu mwyfwy fel dysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o ymchwilio i ddatblygu eu meddwl a chynnal eu dysgu. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddewis testun ac maent yn defnyddio meddalwedd wahanol ar gyfer rhoi cyflwyniadau ar destunau, er enghraifft, yn eu gwaith sy'n ymwneud â'r Ail Ryfel Byd. Nid yw disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn cyflawni cystal ag y gallant mewn gwersi.

Gall disgyblion ddeall a dilyn y Gymraeg a ddefnyddir yn gynyddol fel ffordd o gyfathrebu wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn y dosbarth Sylfaen yn arbennig, mae

disgyblion yn dechrau gwneud defnydd digymell o'r Gymraeg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall disgyblion gysylltu dilyniant o frawddegau i gyfleu gwybodaeth bersonol. Mae plant yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu geiriau a brawddegau sylfaenol yn Gymraeg, er nad yw eu hamgyffrediad o gystrawennau brawddeg weithiau mor gywir ag y gallai fod. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn caffael ystod gynyddol o batrymau brawddegau a geirfa Gymraeg ac yn eu defnyddio'n gywir. Mae cynnydd yn y gallu i gysylltu gwahanol batrymau brawddegau mewn ysgrifennu mwy estynedig yn llai amlwg.

Mewn nifer o achosion, mae disgyblion wedi mynd ymlaen i ymuno â'r ffrwd ddwyieithog yn Ysgol Brynhyfryd o ganlyniad i'w cynnydd yn y Gymraeg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, mae'r nifer fach o ddisgyblion a gafodd eu hasesu mewn Cymraeg mamiaith dros y blynyddoedd diwethaf yn cyflawni'n dda ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol ar gyfer nodi achosion o fwlio, a delio â nhw. Maent yn mynd at oedolion yn yr ysgol yn hyderus i gael cymorth ac arweiniad.

O ganlyniad i fentrau fel 'Heartstart', a 'Dangerpoint', mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o sut i aros yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, mae gan ddisgyblion o bob oedran ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd glanhau eu dannedd yn rheolaidd fel rhan o Gynllun Gwên. Mae niferoedd da yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon.

Mae safonau ymddygiad yn dda mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion yn uniaethu'n dda â'i gilydd a staff ac maent yn mwynhau eu dysgu. Mewn dosbarthiadau, mae disgyblion yn awyddus ac yn bwrw ymlaen â'r dysgu'n dda ar y cyfan. Maent hefyd yn dyfalbarhau i gyflawni amcanion gwersi. Mae lefelau presenoldeb yn uchel, ac wedi bod yn agos at, neu ymhlith y 25% uchaf o'r lefelau ar gyfer ysgolion tebyg yn gyson.

Mae cyfranogiad disgyblion yng nghyngor yr ysgol yn hyrwyddo eu cyfraniad at fywyd a gwaith yr ysgol a'u gallu i gyfrannu at wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys trefnu holiaduron disgyblion a chyflwyno'r canlyniadau i'r corff llywodraethol, a gwneud awgrymiadau sydd wedi cael croeso da gan yr ysgol.

Mae disgyblion yn dangos parch, gofal a phryder at eraill. Mae ganddynt gysylltiadau agos â'r gymuned leol, maent yn dosbarthu bagiau llysiau i breswylwyr oedrannus y pentref ac yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau chwaraeon a chymdeithasol lleol. Mae disgyblion yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac maent yn hyderus wrth ryngweithio ag oedolion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod addas o weithgareddau dysgu diddorol ar gyfer disgyblion sy'n ennyn ac yn cynnal eu cyfranogiad mewn dysgu. Mae cynllunio profiadau dysgu ar y cyd yn sicrhau cwricwlwm cytbwys ar draws yr ysgol.

Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gwaith. Nid yw'r cynllunio i sicrhau dilyniant mewn datblygu medrau disgyblion wedi effeithio'n llawn ar brofiadau dysgu disgyblion mewn dosbarthiadau eto. Gwneir defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddatblygu medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd.

Gwneir defnydd helaeth o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu sylfaenol gyda disgyblion. Mae mentrau fel y 'Ditectif Cymraeg' a 'Phartneriaid Siarad' yn helpu disgyblion i ymarfer a defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn gwersi. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol, fel sy'n ofynnol, ar gyfer disgyblion o gefndiroedd Cymraeg.

Mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd a materion eco. Ymgorfforwyd prosiectau ym mywyd bob dydd yr ysgol. Megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dinasyddiaeth fyd-eang.

Caiff profiadau disgyblion eu cyfoethogi gan siaradwyr sy'n ymweld â'r ysgol i siarad am eu gwaith, eu hatgofion a'u hobïau. Mae disgyblion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi clybiau ar ôl yr ysgol ac mae nifer dda yn eu mynychu. Mae prosiect y bartneriaeth gymunedol i ddatblygu gardd yr ysgol wedi darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion.

Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddysgu am yr amgylchedd lleol, yn cynnwys hanes lleol a llên gwerin. Maent yn ymweld â Glan-llyn ac yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn eisteddfodau lleol.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn sefydlu perthynas waith dda gyda disgyblion. Maent yn cynllunio gwersi'n effeithiol ac yn defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau addysgu i ennyn diddordeb disgyblion. Mae gwersi yn fywiog ac mae llawer o weithgareddau yn sicrhau dilyniant priodol yn nysgu'r disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio iaith a chwestiynau yn effeithiol. O bryd i'w gilydd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, ni chaiff y gwaith ei weddu'n ddigon agos i'r ystod gallu, sy'n golygu nad yw disgyblion yn ymgymryd yn llawn yn y dysgu nac yn cyflawni eu llawn botensial.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o wybodaeth asesu i olrhain cynnydd disgyblion. Gosodir targedau unigol ar gyfer disgyblion, ac fe gaiff y rhain eu holrhain yn effeithiol i fonitro cynnydd a darparu cymorth ychwanegol pan fydd angen. Caiff hyn effaith arwyddocaol ar gynnydd disgyblion.

Caiff gwaith ysgrifenedig disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae sylwadau athrawon yn cydnabod ymdrech ac yn cynnig anogaeth.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion yn unig y caiff disgyblion sylwadau defnyddiol yn nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.  Mae anghysondebau rhwng dosbarthiadau yn y cyfleoedd a roddir i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn glir ac addysgiadol.  Maent yn cynnwys disgyblion a rhieni yn effeithiol mewn nodi meysydd ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus.  Mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill trwy gasglu arian yn rheolaidd ar gyfer achosion da.  Mae rhieni'n canmol y gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol yn gryf.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o fentrau i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion.  Mae'r rhain yn cynnwys mentrau fel 'Bygiau Baco!' ('Smokebugs') a 'Paid Cyffwrdd - Dwed' ('Don't touch, tell').

Caiff cynnydd, lles ac ymddygiad disgyblion eu rheoli'n effeithiol gyda chymorth da gan gynorthwywyr ystafell ddosbarth.  Caiff y polisi disgyblu pendant effaith gadarnhaol ar safonau ymddygiad ar draws yr ysgol.  Mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r system wobrwyo.  Ceir goruchwyliaeth ofalus a chefnogol gan oedolion amser chwarae.  Mae gan yr ysgol gysylltiadau â nifer o asiantaethau eraill sy'n sicrhau cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol trwy ddarpariaeth y 'Grŵp hybu'.  Ceir gweithdrefnau priodol ar gyfer nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ar gyfer lleferydd ac iaith.  Caiff y disgyblion hyn gymorth da gan gynorthwywyr addysgu hyfforddedig yr ysgol.  Mae'r cynllun 'Dal i fyny' wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau mewn darllen.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau allanol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.  Mae cynlluniau addysgol unigol yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.  Hysbysir rhieni yn dda am gynnydd eu plant.

Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu ei darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r ethos cynhwysol a'r amgylchedd cefnogol yn nodweddion cryf yn yr ysgol.  Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at amrywiaeth.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn eang ac mae cynllun agored y dosbarth babanod a'r dosbarth iau fel ei gilydd yn creu amgylchedd dysgu pleserus ac ysgogol. Mae arddangosiadau lliwgar yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r adeilad a thir yr ysgol mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan. Mae'r tîm arolygu wedi ysgrifennu at y corff llywodraethol a'r awdurdod lleol ynglŷn â chyflwr wal allanol.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyfleusterau cyfagos ar gyfer gweithgareddau chwaraeon ac addysg gorfforol yn rheolaidd. Mae ganddi ddigon o offer ac adnoddau i gefnogi pob agwedd ar y cwricwlwm.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae wedi'i rhannu â phob un o'r staff a'r llywodraethwyr. Mae mentrau i wella agweddau ar y ddarpariaeth wedi cael effaith arwyddocaol ar gyflawniadau a lles disgyblion. Caiff blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol eu hadolygu a'u harfarnu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff llywodraethol. Mae gwaith tîm effeithiol a chyfathrebu da ar bob lefel yn nodweddion amlwg. Mae'r ysgol wedi datblygu perthynas gadarnhaol gyda rhieni a phobl eraill yn y gymuned ac mae'n ymatebol i'w safbwyntiau.

Mae systemau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad y staff addysgu, ac mae cynlluniau i ymestyn hyn i aelodau eraill o staff yr ysgol yn y dyfodol agos.

Mae corff llywodraethol yr ysgol yn gefnogol i'r ysgol, ac yn cymryd rhan yn llawn mewn cynllunio strategol. Caiff y corff llywodraethol ei gynnwys yn y broses hunanarfarnu ac mae'n herio'r ysgol lle bo'n briodol. Mae llywodraethwyr yn gwneud defnydd o'r setiau data craidd i fonitro pa mor dda y mae'r ysgol yn perfformio o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae llywodraethwyr hefyd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau neilltuedig.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft trefniadau ar gyfer y trosglwyddo effeithiol rhwng y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn bwriadu rhannu'r gwaith hwn gyda'r ysgolion eraill yn yr un clwstwr. Eir i'r afael yn briodol â gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad iaith Gymraeg y disgyblion hefyd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer hunanarfarnu, sy'n cynnwys adolygu cynllunio athrawon, craffu ar waith disgyblion, a dadansoddi data. Mae'r pennaeth yn monitro ansawdd yr addysgu trwy arsylwadau gwersi ac mae'r ysgol yn ymgynghori â rhieni a disgyblion i gael eu safbwyntiau.

Yn gyffredinol, mae hunanarfarnu yn gadarn, er bod rhai agweddau ar y ddarpariaeth lle nad oes digon o fanylion i lywio cynllunio datblygiad yn llawn. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn drylwyr ac wedi'i strwythuro'n dda. Mae'n nodi amcanion clir, graddfeydd amser addas, a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r camau dros gyfnod o dair blynedd.

Aethpwyd i'r afael yn llawn ag argymhellion yn deillio o'r arolygiad diwethaf.

Mae gan staff addysgu gyfrifoldebau priodol am gyfrannu at arfarnu effeithiolrwydd yr ysgol wrth fodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llawn i welliant parhaus ac i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion lleol eraill fel cymuned ddysgu broffesiynol. Mae mentrau presennol yn cynnwys codi safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion mwy abl a dawnus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid.

Caiff rhieni gyfleoedd da i gynnig eu safbwyntiau ar agweddau ar ddarpariaeth a chymorth ac maent yn gyfforddus i fynd at yr ysgol gydag ymholiadau neu bryderon.

Mae gweithgareddau ar y cyd ag ysgolion lleol yn cynnwys safoni a chymedroli asesiadau athrawon o waith disgyblion ac ymweliadau cyfnewid i arsylwi addysgu a dysgu. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag Ysgol Brynhyfryd fel rhan o'u cynllun pontio.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid cymunedol, yn cynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, yr eglwys leol a chyflogwyr. Mae wedi gwneud defnydd effeithiol o grant ysgol fro i sefydlu clwb gwaith cartref. Mae hefyd wedi gwella'r cyfleusterau ar gyfer dysgu cymunedol y tu allan i oriau ysgol ar y cyd â Choleg Llandrillo.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o staff cymorth i ddarparu cymorth ychwanegol effeithiol ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'n defnyddio staff mewn ffordd sy'n gwneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae'r ysgol yn bodloni gofynion y cytundeb baich gwaith. Dyrennir adnoddau yn briodol.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth da gan y corff llywodraethol, yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Mae costau ynghlwm wrth amcanion y cynllun datblygu ysgol, a nodir ffynonellau cyllid yn glir. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â gostyngiad sylweddol yn ei chyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd pymtheg o rieni neu ofalwyr yr holiadur. Fe wnaethant fynegi lefelau uchel o foddhad. Bron yn ddieithriad, dangosodd rhieni a gofalwyr eu bod yn hapus neu'n hapus iawn â phob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Dywed bron pob un o'r rhieni eu bod yn cytuno'n gryf bod eu plant wedi ymgynefino'n dda yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da. Dywed bron pob un ohonynt hefyd eu bod yn cytuno'n gryf bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn cael lefel uchel o gymorth a bod eu plant yn cael eu trin yn deg a chyda pharch. Maent yn cytuno'n gryf bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'u bod yn gweld y staff yn bobl y mae'n hawdd mynd atynt os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwodd pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 (13 disgybl) yr holiadur i ddysgwyr. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i unrhyw un o'r cwestiynau a nododd fod gan ddisgyblion bryderon am unrhyw agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| Richard John Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Rhys Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tania Armstrong Owen | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |